Teleofal Caerdydd
Gwasanaeth Ymateb a Wardeiniaid

Galwr CareAssist

Beth yw Galwr CareAssist?

Mae Galwr CareAssist yn larwm teleofal cludadwy sy'n gallu derbyn hysbyson gan yr amryw synwyryddion teleofal sydd ar gael. Bydd Galwr CareAssist yn dangos pa fath o synhwyrydd sydd wedi synhwyro rhywbeth o'i le. Yna, bydd y gofalwr yn cydnabod ac yn ymateb i'r sefyllfa. Bydd hefyd yn helpu gwella safon bywyd gofalwyr anffurfiol, ac yn rhoi'r gallu iddynt fyw yn fwy annibynnol.

Beth yw manteision defnyddio Galwr CareAssist?

Mae'n cyd-fynd â hyd at 128 synhwyrydd teleofal

Mae'n hawdd ei ddefnyddio gyda sgrin 2.4” OLED glir a llachar

Mae Galwr CareAssist yn gwbl gludadwy, yn ddigon bychan i fynd i boced ac mae’n gweithio gyda batri

Mae'n bosibl i Alwr CareAssist rybuddio’r gofalwr drwy sain, crynu a neges weledol.

Teleofal Caerdydd
Gwasanaeth Ymateb a Wardeiniaid

Sut mae Galwr CareAssist yn gweithio?

Bydd y synwyryddion wedi eu haseinio'n barod gan y Swyddog Teleofal ac wedi ei bennu ar gyfer naill ai rhywle yn yr adeilad neu ar gyfer preswylydd penodol. Pan mae'r synhwyrydd yn synhwyro rhywbeth o'i le, bydd Galwr CareAssist yn crynu, gwichian a bydd y sgrin lachar yn goleuo. Bydd hyn yn rhoi gwybod i'r gofalwr am y digwyddiad ac yna bydd yntau'n gallu edrych i weld pa synhwyrydd sydd wedi synhwyro rhywbeth o'i le. Mae cwmpas radio o hyd at 200 medr (heb rwystr).